# Cyflwyniad

## gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

Diolch am eich diddordeb yn y rôl Pennaeth ADY a Lles.  Rydym yn sefydliad sy'n meddwl yn hirdymor, ac yn ymrwymedig i adeiladu etifeddiaeth o gymunedau bywiog a chynaliadwy yn y Fro. Rydym wedi nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymunedau cryf gyda dyfodol disglair yn ein cynllun corfforaethol, ynghyd â'n pedwar amcan lles cyffredinol:

- Gweithio gyda, a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Fel Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, fy rôl i yw cefnogi'r Prif Weithredwr i gyflawni'r cynllun hwn.  Rwy'n credu'n angerddol bod gwasanaeth cyhoeddus yn ymwneud â gweithio i feithrin cymunedau cryf, i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed, i roi mwy o ddewisiadau bywyd i bobl, a helpu pawb i gyflawni eu potensial.

Rydym yn awdurdod lleol sy'n perfformio'n gyson uchel gyda chofnod cryf o gyflawniad ar draws ardaloedd gwasanaeth.  Mae canlyniadau arolygu Estyn ysgolion Bro Morgannwg yn gryf heb unrhyw ysgolion mewn categori dilynol Estyn.  Mae ein Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi gweld buddsoddiad cyfalaf helaeth ar draws ein hystâd ysgol gan gynnwys darparu ysgol Garbon Sero Carbon gyntaf Cymru.  Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau ar gyfer disgyblion ag ADY wedi bod yn ganolog i'n rhaglen gyda buddsoddiad mewn canolfannau adnoddau arbenigol, Canolfan Dysgu a Lles newydd ac adeilad ysgol arbennig cyfnod cynradd newydd ar y gweill.

Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth weithredu'r Ddeddf ADY ac rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r Dull Ysgol Gyfan o Iechyd Meddwl a Lles.  Rwy'n edrych i benodi person egnïol a phrofiadol i arwain y gwaith hwn yn ogystal â datblygiad ehangach gwasanaethau ADY a lles.

Er bod Cynghorau'n gweithio mewn cyfnod cynyddol heriol, mae cyfleoedd cyffrous i chi lunio a dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau yn eich ardal eich hun, ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid. Mae'r rôl hon yn gofyn am rywun sy'n deall y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo ac sydd mor angerddol dros weithio i sicrhau canlyniadau gwell i'n dinasyddion ag yr ydym ni.

Os yw hyn yn apelio atoch, byddwn yn croesawu sgwrs anffurfiol am y rôl. Gallwch gysylltu â mi ar 07715 252109 neu pham@valeofglamorgan.gov.uk.  Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yr eiddoch yn gywir,

*Paula Ham*
*Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau*




